# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID

## GEN-LD7410 – Cynnig Cyllideb Atodol 2008-09 (3 Mawrth 2009)

## Cefndir:

1. Mae Rheol Sefydlog 27 yn nodi:

*27.23 Ni chaniateir i gynnig cyllideb atodol a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 27.21 gael ei wneud naill ai:*

*(i) nes bod y Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar y cynnig; neu*

*(ii) nes bod tair wythnos wedi mynd heibio ar ôl iddo gael ei gyflwyno, os nad yw'r Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar y cynnig.*

*27.24 Caiff adroddiad y Pwyllgor Cyllid argymell newidiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y cynnig cyllideb atodol ar yr amod na fyddai effaith net yr amrywiadau hynny'n cynyddu neu'n gostwng cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yn y cynnig cyllideb atodol.*

2. Gosododd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Cynnig Cyllideb Atodol gerbron y Cynulliad ddydd Mawrth 3 Mawrth 2009. Y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad arno felly yw dydd Mawrth 24 Mawrth 2009.

3. Ysgrifennodd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus at y Pwyllgor ar 19 Chwefror i'w hysbysu ynghylch yr amserlen y mae'n bwriadu ei dilyn ar gyfer Cynnig Cyllideb Atodol 2008-09. Yn ei lythyr, hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor hefyd ei fod yn awyddus i sicrhau y bydd y cynnydd a wnaed o ran gwella sut y cyflwynir y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn parhau ac y byddai Nodyn Esboniadol yn cael ei ddarparu gyda Chynnig Cyllideb Atodol 2008-09 i'r perwyl hwnnw. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi ymdrechion parhaol y Gweinidog i wella sut y cyflwynir y broses gyllidebu a'i thryloywder.

4. Rhoddodd, Dr Christine Daws, Cyfarwyddwr Cyllid y Llywodraeth, dystiolaeth i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 11 Mawrth, ynghyd â Piers Bisson, Pennaeth Cynllunio Ariannol y Llywodraeth.

## Yr angen am y cynnig cyllideb atodol diweddaraf

5. Mae Cynnig Cyllideb Atodol 2008-09 yn diwygio Cyllideb Derfynol 2008-09, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 22 Ionawr 2008. Mae'r cynnig yn cyflawni sawl rôl weinyddol, gan adlewyrchu ail-flaenoriaethu mewnol a throsglwyddiadau rhwng cyllidebau.

6. Mae'r Gyllideb Atodol hefyd yn darparu ar gyfer trosglwyddo £84 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud cynnydd ar yr ymrwymiad amseroedd aros. Mae'r trosglwyddiad hwn yn cyd-fynd â'r rhai a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

7. Roedd y Pwyllgor yn pryderu i ddechrau fod y Gyllideb Atodol yn cynnwys cynnydd o £70 miliwn mewn adnoddau pan fo'r swm gwirioneddol a gaiff ei dynnu i lawr o Gronfa Gyfunol Cymru yn 2008-09 wedi gostwng £90 miliwn. Dywedodd swyddogion wrth y Pwyllgor fod y swm wedi gostwng oherwydd bod £90 miliwn yn ychwanegol wedi ei gael ar ffurf derbynebau gan y Gronfa Yswiriant Gwladol ac y byddai derbynebau o'r fath yn cael eu gosod yn erbyn cyfanswm yr arian sydd ar gael yn y Gronfa Gyfunol. Cadarnhawyd na chafwyd unrhyw ostyngiad yn y cynlluniau gwario arian cyffredinol.

.

8. Mae'r Gyllideb Atodol yn nodi manylion y £69 miliwn o gyfalaf hyblygrwydd diwedd blwyddyn a dynnwyd i lawr. Cadarnhaodd y swyddogion nad oedd Trysorlys EM hyd yn hyn wedi cytuno ar y swm hyblygrwydd diwedd blwyddyn sydd ar gael i'w ddwyn ymlaen o flwyddyn ariannol 2007-08 ac y byddai hysbysiad yn cael ei anfon at y Pwyllgor pan gytunir ar hyn. Cytunodd y swyddogion hefyd i roi manylion yr hyblygrwydd diwedd blwyddyn sydd ar gael i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

9. Rhoddodd Adroddiad Rhag-gyllidebol Llywodraeth y DU[1] gyfle i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddod â hyd at £140 miliwn o wariant cyfalaf ymlaen o flwyddyn ariannol 2010-11. Mae'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus wedi datgan yn y gorffennol y tynnwyd hwn i lawr yn bennaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-10, ond hefyd ar gyfer 2008-09, i raddau cyfyngedig.[2]

10. Mae Cyllideb Atodol 2008-09 yn dyrannu £28 miliwn o'r arian cyfalaf hwn sy'n cael ei ddwyn ymlaen o 2010-11. Cadarnhaodd y swyddogion y bwriedir defnyddio'r £118 miliwn sy'n weddill i'w ddwyn ymlaen yn 2009-10, ac y byddai hyn yn digwydd drwy gyllideb atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

## Casgliadau

11. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'r newidiadau a gynigir yn y Cynnig Cyllideb Atodol ac eglurhad y Llywodraeth ynghylch y rhesymau drostynt. Nid yw'n argymell y dylid newid y symiau a gynigir yn y Cynnig Cyllideb Atodol.

**Angela Burns, AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

[1] 'Pre Budget Report 2008', Trysorlys EM (12 Mawrth 2008)

[2] Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies), 'Cyllideb Terfynol 2009-10', Datganiad Cabinet (Ysgrifenedig), 2 Rhagfyr 2008.